



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2017 – 2018

Lyn Williams

Rhif Diwygiad

Cynnwys	
Crynodeb gweithredol.....	3
Cyflwyniad.....	4
Rhoi'r Safonau ar waith.....	4
Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.....	7
Risgiau o beidio â chydymffurfio.....	8
Safonau Cyflenwi Gwasanaeth.....	9
Safonau Polisi.....	13
Safonau Gweithredol.....	14
Safonau cadw cofnodion.....	18
Casgliad.....	24
Sgiliau Cymraeg staff (Atodiad 1).....	25
Hyfforddiant Cymraeg (Atodiad 2).....	26

Crynodeb gweithredol

Croeso i'r grynodeb o'n Hadroddiad Blynnyddol ar gyfer 2017 – 2018 ar weithredu Safonau'r Gymraeg, a gafodd eu rhoi ar waith yn ein sefydliad ar 25 Ionawr 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut mae ein sefydliad wedi gweithredu'r Safonau y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw, a'r gwaith rydym wedi'i wneud i wella ein gwasanaethau Cymraeg o fewn y flwyddyn adrodd.

Rydym yn sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar hyd a lled Cymru, gyda swyddfeydd a staff yn gweithio mewn lleoliadau amrywiol ledled y wlad. Rydym yn parchu hunaniaeth ein cwsmeriaid a'r partneriaid rydym yn gweithio â nhw, ac yn ceisio darparu'r gwasanaethau hynny yn eu hiaith ddewisol, Cymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dymuniad. Er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn, mae gennym staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn gweithio ym mhob cwr o Gymru.

Yn ystod 2018, bydd Uned Gyhoeddus Llywodraeth Cymru yn penodi aelodau Bwrdd newydd i'n sefydliad, a byddem yn croesawu siaradwyr Cymraeg ymhlith y penodiadau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gefnogi ein staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg trwy ddilyn ein rhaglen hyfforddi, ac rydym o dipyn i beth yn cynyddu sgiliau dwyieithog ein gweithlu. Rydym yn annog ein holl staff i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle, waeth pa lefel y mae'r sgiliau hynny arni, a helpu i fagu hyder i ddefnyddio'r sgiliau hynny'n rheolaidd, gan weithio tuag at ein gweledigaeth o sefydlu ein hunain fel sefydliad dwyieithog naturiol ar gyfer y dyfodol.

Mae gwaith wedi'i wneud ar ehangu a gwella gallu dwyieithog ein Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd ar ddyfeisiau symudol trwy negeseuon testun a negeseuon llais i'r cyhoedd. Mae ein sefydliad yn cynnig rhybuddion llifogydd i 136,000 o adeiladau yng Nghymru.

Croesawir adborth gan ein cwsmeriaid a phartneriaid ar ein gwasanaethau Cymraeg, ac mae hwn wedi ein helpu ni i adolygu rhai gwasanaethau a gwella ansawdd y rhain ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd yn ôl y gofyn.

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg; gellir hefyd darparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru, ymhlith sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â'r Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Cafodd y Safonau eu rhoi ar waith ar gyfer ein sefydliad ar 25 Ionawr 2017.

Dyma ddiben y safonau: -

- Egluro i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- Egluro'n well i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- Sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Ym mis Ebrill 2013, aeth ein sefydliad ati o'r cychwyn cyntaf i ddatblygu hunaniaeth ddwyieithog, a gweithiodd tuag at gydymffurfio â nifer o'r safonau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol. Gwnaeth hyn helpu'r sefydliad i baratoi ar gyfer yr adeg y byddai'r Safonau'n dod i rym, gan gynyddu ein dyletswyddau iaith, ym mis Ionawr 2017.

Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol hwn yn unol â gofynion y Safonau, gan nodi sut mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â nhw yn ystod cyfnod adrodd 2017 – 2018.

Safonau Gwasanaeth – y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd.

Safonau Polisi – sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn rhan o'r broses benderfynu a chynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag effaith niweidiol neu'n cynyddu'r effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Safonau Gweithredol – hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg yn ein prosesau gweinyddol mewnol.

Safonau Cadw Cofnodion – cadw cofnodion er mwyn cydymffurfio â gofynion y Safonau mewn meysydd fel sgiliau Cymraeg y staff, hyfforddiant, cwynion a recriwtio.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Medi, fel yr amlinellir yn Safonau'r Gymraeg. Hwn yw ein hadroddiad cyntaf ar weithredu'r Safonau am 12 mis cyfan. Mae'n dangos sut rydym wedi rhoi'r Safonau hynny ar waith, a'r gwaith rydym wedi'i wneud i wella ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod 2017 – 2018.


Rhoi'r Safonau ar waith

Gyda'r Safonau yn dod i rym ar 25 Ionawr 2017, cafodd cryn dipyn o waith ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17 er mwyn sicrhau y gallem, fel sefydliad, gydymffurfio fel y bo'n ofynnol. Eleni, rydym wedi parhau i edrych ar sut gallwn wella ein gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n staff ein hunain, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hyn.

Codi ymwybyddiaeth o'r Safonau – yn fewnol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth ac atgoffa ein staff o ofynion y Safonau, a phwysigrwydd gweithio'n ddwyieithog mewn gwlad sydd â dwy iaith swyddogol, sef Gymraeg a Saesneg. Rydym wedi gwneud hyn trwy gyhoeddi erthyglau ar y fewnwyd er mwyn amlygu'r Safonau, a rhoi cyfarwyddiadau ar waith i helpu pob aelod o'n staff i allu gweithio'n ddwyieithog. Gofynnwyd hefyd mewn cyfarfodydd rheolwyr misol i reolwyr drafod gofynion y Safonau mewn cyfarfodydd tîm, gan ofyn i staff gysylltu â'r Cynghorydd Polisi Iaith Gymraeg os oes ganddynt unrhyw gwestiynau.

Cyhoeddwyd erthygl ar y fewnwyd ym mis Medi, yn gofyn i'r staff feddwl yn ôl i fis Ionawr a'u hatgoffa o lansiad Safonau'r Gymraeg ein sefydliad. Gwnaethom ofyn i'r holl staff ailedrych ar y polisi a'r canllawiau sydd ar waith. Roedd poster a grëwyd ar gyfer lansiad y Safonau'n rhan o'r cyhoeddiad hwn, a oedd yn egluro'n gryno yr hyn y disgwyliar i bob aelod o'n staff ei wneud wrth weithio'n ddwyieithog. Ceir copi o'r poster a grëwyd isod: -



Mae'r poster hwn wedi'i argraffu gan ein Timau Cyfleusterau a'i arddangos ar hysbysfyrddau yn ein swyddfeydd i atgoffa'r staff.

Codi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg ymhlith cyflogeion newydd

Mae'n ofynnol i reolwyr drafod gofynion polisi a chanllawiau Safonau'r Gymraeg gyda staff newydd fel rhan o'u proses ymsefydlu. Mae rhestr wirio ar waith, sy'n rhestru polisi Safonau'r Gymraeg fel mater i'w drafod. Mae'r rhestr wirio hon yn cael ei llofnodi gan y cyflogai newydd a'r rheolwr pan fydd wedi'i chwblhau ac yn cael ei chadw ar ffeil.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dechrau anfon e-bost at bob cyflogai newydd gan Dîm yr Iaith Gymraeg, yn egluro'r polisi sydd gennym ar waith a'r canllawiau sydd ar gael i'w helpu i weithio'n ddwyieithog. Maen nhw hefyd yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r rhaglen hyfforddi Cymraeg sydd gennym ar waith, a'i bod yn agored i bob aelod o staff sy'n dymuno datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg at ddibenion gwaith, yn unol â chymeradwyaeth y rheolwr llinell. Gwahoddir yr holl gyflogeion newydd i fynychu un o'n cyrsiau hyfforddi ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg hefyd, a fydd yn eu helpu i ddeall hanes a diwylliant Cymru, yn ogystal â gofynion y polisi sydd gennym ar waith o ran yr iaith.

Gweithio i wella ein gwasanaethau Cymraeg

Mae ein sefydliad yn gwerthfawrogi ein cwsmeriaid, ac mae eisiau sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gyfeillgar i ddefnyddwyr, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf lle gall cwsmeriaid gael gafael arnynt yn eu hiaith ddewisol. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaethau hynny ar gyfer y dyfodol.

Gwella ein Gwasanaeth Rhybuddion am Lifogydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i wella hygyrchedd ac amseroldeb ein Gwasanaeth Rhybuddion am Lifogydd yn Gymraeg. Gwnaeth cyflwyno systemau TGCh newydd yng ngwanwyn 2017 ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg gofrestru am rybuddion llifogydd a derbyn gwybodaeth fwy amserol a defnyddiol am lifogydd. Mae'r dechnoleg newydd hon yn ein galluogi hefyd i ddefnyddio meddalwedd cyfieithu awtomatig, a fydd yn golygu y bydd ein gwasanaeth gwybodaeth am lifogydd yn Gymraeg yn dod yn fwyfwy defnyddiol gan fod cyngor yn gallu cael ei rannu'n gynt nag wrth aros am gyfieithu â llaw. Disgwylir i brosiect gael ei ddechrau yn ystod gwanwyn 2018 i asesu a gwella ansawdd y cyfieithiadau awtomatig, oherwydd mae'n hanfodol ein bod yn cyhoeddi gwybodaeth gywir ac eglur.

Ar hyn o bryd, mae ein Gwasanaeth Rhybuddion am Lifogydd am ddim ar gael i dros 136,000 o adeiladau yng Nghymru. I dderbyn rhybuddion am lifogydd, roedd angen i'r rhai sydd mewn perygl gofrestru i dderbyn rhybuddion dros y ffôn, drwy negeseuon testun neu drwy e-byst yn Gymraeg neu'n Saesneg. Yn dilyn sawl blwyddyn o weithgareddau hyrwyddol, roedd cwsmeriaid o 53,000 o adeiladau wedi gwneud hynny.

I ehangu cyrhaeddiad ein rhybuddion ymhellach, rydym wedi gweithio gyda darparwyr ffôn (BT, EE, O2, Three a Vodafone) i gofrestru eu cwsmeriaid i dderbyn ein rhybuddion llifogydd. Bellach, caiff ein rhybuddion eu hanfon at dros 114,000 o adeiladau, gyda 5,000 mwy yn cael eu hychwanegu dros y misoedd nesaf. I ddechrau, mae'r cwsmeriaid ychwanegol hyn yn derbyn negeseuon 'croeso' dwyieithog sy'n dweud wrthynt eu bod wedi'u cofrestru'n awtomatig i dderbyn rhybuddion llifogydd.

Fel ymatebwr Categori 1, rydym yn anfon y rhybuddion hyn mewn sefyllfaoedd o argyfwng pan fydd llifogydd yn debygol iawn - gan roi amser hanfodol i bobl baratoi ymlaen llaw. Gan nad ydym yn gwybod dewis iaith y sawl sy'n derbyn y rhain, anfonir y rhybuddion yn Saesneg yn unig. I helpu gyda hyn, mae'r negeseuon 'croeso' yn cynnwys dolen i [wefan Cyfoeth Naturiol Cymru](#), sy'n annog y derbynnydd i ffonio gwasanaeth Floodline a chofrestru'n llawn i dderbyn rhybuddion llifogydd yn eu hiaith ddewisol. I ddewis peidio â chael y gwasanaeth hwn, gallant ffonio Floodline neu ateb y neges destun 'croeso' gyda DILEU neu REMOVE.

Cyflwynir gwybodaeth fyw am rybuddion llifogydd ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg fel bod defnyddwyr yn gallu dod o hyd i'w risg llifogydd uniongyrchol a hirdymor. Trwy ystyried adborth cwsmeriaid a staff, rydym wrthi'n gwella'r gwasanaethau iaith hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn barod ar gyfer gaeaf 2018.

Gwefan

Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn ddwyieithog, ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob gwasanaeth ar-lein newydd ar gyfer y cyhoedd yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

Er mwyn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg sydd ar ein gwefan, gwnaethom y dudalen gefndirol ddiodyn yn Gymraeg pan wnaethom ailddylunio'r safle ym mis Ebrill 2017, gydag opsiwn iaith i'r cwsmer barhau yn ei iaith ddewisol.

Serch hyn, mae nifer y cwsmeriaid sy'n dewis defnyddio'r wefan yn Gymraeg yn parhau i fod yn siomedig o isel – o'r 931,392 o weithiau yr edrychwyd ar dudalen unigryw rhwng mis Medi 2017 a mis Chwefror 2018, dim ond 1% o'r rhain ddewisodd Gymraeg.

Yn ein strategaeth ddigidol newydd, rydym wed nodi'r angen i annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau Cymraeg ar-lein. Hoffem weld Swyddfa'r Comisiynydd yn cynnig rhagor o gymorth i annog y defnydd o wasanaethau Cymraeg sy'n cael eu datblygu gan wasanaethau cyhoeddus.

Allan yn yr awyr iach – lleoedd i ymweld â hwy

Ein sefydliad ni yw un o ddarparwyr cyfleusterau hamdden awyr agored mwyaf Cymru. Yn yr adran 'Lleoedd i ymweld â hwy' ar ein gwefan, datblygwyd map rhyngweithiol 'Ar grwydr' ym mis Ebrill 2017 ac fe'i lanswyd gyda phinnau naid i ddangos lleoliad ein prif goetiroedd a'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Gall ymwelwyr â'r wefan glicio ar y pin a fydd yn mynd â nhw'n uniongyrchol o'r map i dudalen we'r safle y maen nhw am ymweld ag ef. Ar y dudalen hon, byddant yn dod o hyd i'r holl wybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael iddynt ar y safle yno. Mae'r map rhyngweithiol hwn wedi'i ddatblygu yn Gymraeg a Saesneg.

Mae paneli cyfieithu croeso newydd wedi'u codi mewn rhai o'n meysydd parcio ledled Cymru, sy'n rhan o raglen waith i ddisodli paneli dehongli cyrff etifeddol. Mae'r holl paneli newydd wedi'u hailysgrifennu gyda mapiau gwell arnynt, ac maen nhw i gyd yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg i'r chwith o'r testun Saesneg neu uwch ei ben.

Cyhoeddwyd taflenni hamdden newydd ar gyfer gogledd Cymru ar fformat wyneb i waered dwyieithog. Mae'r rhain yn ychwanegu at y casgliad sydd wedi'u cyhoeddi eisoes ar gyfer canolbarth Cymru. Bydd un yn cael ei chyhoeddi ar gyfer de Cymru yn y misoedd nesaf, i gwblhau'r gyfres ddwyieithog hon sy'n cynnwys yr holl gyfleusterau hamdden rydym ni'n eu rheoli ar hyd a lled Cymru.

Gwella TGCh at ddefnydd ein staff ein hunain

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ddiweddar i osod meddalwedd Windows 10 ar gyfrifiaduron y bydd yr holl staff yn eu defnyddio. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae pecyn iaith wedi cael ei dreialu a bydd gan staff ddewis o gael rhyngwyneb y feddalwedd hon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddant yn gallu dewis eu hopsiwn iaith eu hunain. Bydd

Cysgliad, y feddalwedd geiriadur a gramadeg Cymraeg, hefyd ar gael i'r holl staff ei defnyddio gyda Windows 10. Bydd canllawiau ar waith i helpu staff i ddefnyddio'r cyfleuster hwn ac i newid y dewisiadau iaith yn ôl eu dymuniad. Bydd yr opsiwn iaith yn ddefnyddiol iawn i'n holl staff sydd eisiau defnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle, ac i'n staff sy'n dysgu Cymraeg, a fydd yn gallu ymarfer defnyddio'r sgiliau darllen a'r sgiliau ysgrifenedig y maen nhw wedi'u dysgu yn y dosbarth.

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Gwnaethom lunio adroddiad monitro blynyddol ar yr iaith Gymraeg ar gyfer 2016-17, yn unol â gofynion ein Safonau, a chafodd hwn ei gyhoeddi ar ddechrau mis Medi 2017. Tynnwyd sylw at y cyhoeddiad ar ein tudalennau Facebook a Twitter, yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar ein mewnwrwyd, a oedd yn rhoi cyfle arall i ni godi ymwybyddiaeth staff. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am sut roeddem wedi cydymffurfio â'r Safonau y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.

Mae'r flwyddyn hon wedi parhau i fod yn gyfnod o newid, gyda gwaith dylunio sefydliadol a fydd yn llywio ein strwythur newydd, gan wneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn lle gwell i weithio er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, sef bod yn falch o arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yr adolygiad yn ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses benderfynu yn y gwaith dylunio sefydliadol, er mwyn sicrhau nad yw'r un o'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd neu i'n staff ein hunain. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a bydd strwythurau newydd ar waith erbyn mis Ebrill 2019.

Risgiau o beidio â chydymffurfio

Dengys yr ystadegau cyfredol fod 24.3% o'n staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae nifer uchel o'n siaradwyr Cymraeg rhugl mewn rolau lle nad oes angen iddynt ymdrin â chwsmeriaid. Dylid ystyried sgiliau iaith Gymraeg staff mewn unrhyw Gynllun Ymadael Gwirfoddol yn y dyfodol. Rydym wedi colli rhai o'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gallai colli mwy beryglu ein gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer y dyfodol, ac o bosibl peri i ni beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Dylid ystyried gofynion sgiliau Cymraeg swyddi yn y gwaith dylunio sefydliadol sydd ar droed, fel y gallwn adeiladu gweithlu ar gyfer y dyfodol sy'n gallu darparu gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid ym mhob un o'n gweithleoedd. Mae canllawiau ar waith i helpu rheolwyr i asesu gofynion sgiliau Cymraeg swyddi.

O ganlyniad i'r gwaith dylunio sefydliadol sydd ar droed ledled y busnes, mae nifer uchel o swyddi gwag wedi'u hysbysebu fel penodiadau cyfnod penodol o 100 o wythnosau. Yn aml iawn, mae angen llenwi'r swyddi hyn ar frys er mwyn i'r busnes barhau. Gall hyn effeithio ar yr anghenon iaith Gymraeg a asesir ar gyfer y swyddi hyn, oherwydd hyd y contract. Oni bai fod deiliad y swydd yn ymdrin â'r cyhoedd yn ddyddiol/rheolaidd, hysbysebwr swyddi ar Lefel 1, a gelwir ar sgiliau iaith Gymraeg y tîm uniongyrchol/ehangach i ymdrin ag ymholiadau sy'n ymwneud â'r swydd wag yn y tymor byr. Mae hyn yn cyd-fynd â'n canllawiau ar gyfer staffio a recriwtio, ond mae'n effeithio ar allu iaith Gymraeg y tîm.

Mae trafodaethau ar droed gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n dosbarthu trwyddedau pysgota i gwsmeriaid yng Nghymru ar ein rhan ar hyn o bryd. Mae problemau wedi codi

gan gwsmeriaid nad ydynt wedi gallu derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg wrth brynu eu trwydded gan y trydydd parti. Rydym mewn trafodaethau ag Asiantaeth yr Amgylchedd i edrych ar ffyrdd o weithio sy'n sicrhau y gellir darparu gwasanaeth Cymraeg ar bob adeg. Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau diogelu data ochr yn ochr â'r trafodaethau sydd ar droed. Byddwn yn parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd hyd oni chytunir ar ddatrysiad posibl.

Mae cwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru yn derbyn trwydded bysgota ddwyieithog.

Mae Safon 100 yn nodi y dylai staff allu cofnodi gwyliau blynyddol, absenoldebau ac oriau gweithio hyblyg yn Gymraeg. Nid yw system MyNRW yn caniatáu i staff gofnodi gwybodaeth yn Gymraeg ar hyn o bryd. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch ystyried y gofyniad hwn mewn diweddariadau i'r system yn y dyfodol.

Polisi Safonau'r Gymraeg

Mae Polisi Safonau'r Gymraeg a chanllawiau ar waith ac ar gael i'r holl staff ar y fewnwyd. Mae'r polisi a'r canllawiau wedi'u hamlygu nifer o weithiau mewn cyhoeddiadau a gyhoeddir ar y fewnwyd ac yn y cylchlythyr misol i reolwyr, yn gofyn i reolwyr drafod y gofynion hyn gyda'u staff mewn cyfarfodydd tîm.

Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth (Safonau 1 – 83)

Gohebiaeth (Safonau 1 – 7)

Mae canllawiau ar ohebiaeth ar waith i helpu ein staff i ymdrin â gohebiaeth yn y Gymraeg. Mae'r canllawiau'n cynnwys negeseuon dwyieithog 'allan o'r swyddfa' defnyddiol y gall staff eu defnyddio ar eu negeseuon e-bost, ac maen nhw ar y fewnwyd yn Gymraeg a Saesneg.

Mae ein Tîm Cyfathrebu wedi dylunio llofnod safonol i'n holl staff ei ddefnyddio pan fyddant yn gohebu â phobl eraill, fel y dangosir isod:

Teitl Swydd / Job Title

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Rhif ffôn – Telephone number / Rhif symudol – Mobile Number

Siaradwr Cymraeg / **Dysgwyr Cymraeg** (os yn bethnasol / if applicable)

Oriau swyddfa / Office hours

www.cyfoethnaturiol.cymru / www.naturalresources.wales

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Proud to be leading the way to a better future for Wales by managing the environment and natural resources sustainably.



Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in both Welsh and English.

Ffoniwch ni ar **03000 65 3000** (24-awr) i roi gwybod am ddigwyddiadau amgylcheddol / Call us on **03000 65 3000** (24-hour) to report environmental incidents

Cofnodir dewis iaith y cwsmeriaid hynny rydym yn ymdrin â nhw'n rheolaidd ar ein system rheoli cofnodion cwsmeriaid. Mae'r system hon yn cael ei datblygu i ganiatáu i fwy o'n staff gael mynediad i gofnodi a gwirio dewis iaith cwsmeriaid.

Cyfathrebu dros y ffôn (Safonau 8 – 22)

Mae gennym ganllawiau ar gyfathrebu dros y ffôn, sy'n cynnwys rhai ymadroddion defnyddiol i staff eu defnyddio wrth ateb y ffôn, ac mae'r rhain ar gael ar y fewnwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhaid i staff sydd ag ychydig iawn o sgiliau Cymraeg, os o gwbl, gwblhau cwrs "Cyfarch" deg awr ar-lein i'w helpu i allu ateb y ffôn yn ddwyieithog. Disgwylir i'r holl staff ateb y ffôn yn ddwyieithog, gan ddangos cwrteisi ieithyddol tuag at y sawl sy'n ffonio.

Mae ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid awtomatig yn rhoi dewis o iaith i'r sawl sy'n ffonio'r sefydliad ar y dechrau, ac mae'r neges peiriant ateb y tu allan i oriau'n gwbl ddwyieithog.

Ymdriniwyd â 7.5% o alwadau a dderbyniwyd yn ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn Gymraeg.

Cyfarfodydd (Safonau 23 – 34)

Mae canllawiau ar waith i helpu staff wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae'r canllawiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac maen nhw ar gael ar y fewnwyd. Mae'r canllawiau yn egluro'r hyn y dylid ei ystyried wrth wneud y canlynol: -

- anfon gwahoddiadau a/neu hysbysebu'r cyfarfod neu ddigwyddiad
- trafod dewis iaith wrth wahodd siaradwr gwadd
- arddangos deunyddiau yn y cyfarfod/digwyddiad
- archebu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd os oes eu hangen ar gyfer y cyfarfod/digwyddiad
- dogfennau amgaeedig / taflenni gwaith dwyieithog ar gyfer y cyfarfod/digwyddiad
- dylai holl gyflwyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn ddwyieithog
- rhaid i staff sy'n siarad Cymraeg wisgo bathodynau neu laniardiaid "Siaradwr Cymraeg / Dysgwr"
- dylid agor cyfarfod yn ddwyieithog gydag ymadroddion defnyddiol i'r Cadeirydd eu defnyddio
- cyfarfodydd staff mewnol – dylid annog y staff i ddefnyddio'u hiaith ddewisol

Cyfieithu (Safonau 36 – 43)

Mae canllawiau ar waith, gan gynnwys rhestr wirio i helpu staff i asesu a oes angen cyfieithu gwaith. Mae ein tîm cyfieithu'n gofyn am y rhestr wirio gyda phob cais cyfieithu er mwyn sicrhau bod y gofynion yn cyd-fynd â'n Safonau. Gellir cael y canllawiau a'r rhestr wirio yn Gymraeg a Saesneg ar y fewnwyd. Bydd crynodeb dwyieithog yn cael ei ddarparu ar gyfer ein dogfennau gwyddonol neu dechnegol mwy cyhoeddus.

Dogfennau, ffurflenni a chyhoeddiadau (Safonau 44 – 47)

Mae'r rhestr wirio sydd gennym ar waith gyda'r canllawiau cyfieithu yn cynnwys dogfennau a ffurflenni. Dylai'r holl ffurflenni at ddefnydd cyhoeddus a defnydd y staff fod yn ddwyieithog ar bob adeg.

Rhaid i bob cyhoeddiad a gynhyrchir gan y sefydliad gyd-fynd â'n Llawlyfr Brand, a chyd-fynd â'r polisi cyhoeddiadau sydd ar waith, sy'n cynnwys yr angen i gadw at Safonau'r Gymraeg.

Gwefan, apiau, cyfryngau cymdeithasol (Safonau 48 – 55)

Mae ein gwefan gorfforaethol swyddogol yn ddwyieithog, ac mae cyhoeddwr ein gwefan yn sicrhau bod unrhyw ddogfennau a gyhoeddir yn cyd-fynd â gofynion ein safonau cyfieithu. Rhoddir dewis o iaith i ddefnyddwyr ar y wefan i ddechrau, ac maen nhw hefyd yn gallu newid eu dewis o iaith ar bob tudalen.

Cyfanswm nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan yn ystod 2017–18 oedd 931,392. Nifer y defnyddwyr a ddefnyddiodd ein gwefan drwy'r Gymraeg yn 2017–18 oedd 9,313.

Facebook

Mae pob un o'n tudalennau Facebook yn dudalennau dwyieithog cyfunol; felly, nid oes gennym ddadansoddiad o ddilynwyr cyfrif Cymraeg/Saesneg.

Mae gan brif gyfrif Cyfoeth Natural Cymru / Natural Resources Wales ar Facebook 5,377* o ddilynwyr.

- Coed y Brenin: 9,330 o ddilynwyr
- Garwnant: 9,670 o ddilynwyr
- Bwlch Nant yr Arian: 7,184 o ddilynwyr
- Cadair Idris: 377 o ddilynwyr
- Ynys Las: 1,318 o ddilynwyr
- Twyni Merthyr Mawr: 570 o ddilynwyr
- Llwybr Arfordir Cymru: 14,741 o ddilynwyr

Rheolir y tudalennau gan dimau unigol, ac mae'r tîm cyfathrebu'n darparu canllawiau a nodiadau atgoffa ar yr angen i gyfieithu popeth a gaiff ei bostio.

Twitter

Mae gennym nifer o gyfrifon ar Twitter, a gellir eu dilyn ar [restr o gyfrifon Twitter Cyfoeth Naturiol Cymru](#).

Cyfrifon tîm dwyieithog

@NatResWales (cyfrif canolog) – 14,700 o ddilynwyr
@welshraisedbog – 132 o ddilynwyr
@DyfiWardensNRW – 281 o ddilynwyr
@CoedyBreninFP – 2,600 o ddilynwyr
@Garwnant_Forest – 560 o ddilynwyr
@BNYArian – 760 o ddilynwyr
@WalesCoastPath – 22,400 o ddilynwyr

Cyfrifon dwyieithog/Cymraeg #TimCyfoeth

@WardenCadair - 533 o ddilynwyr
@GavinBownNRW - 86 o ddilynwyr
@SianWilliamsNRW - 560 o ddilynwyr
@timjonesnrw - 20 o ddilynwyr

Saesneg / Dysgu Cymraeg

@MartynEvansNRW - 213 o ddilynwyr

Cyfrifon Saesneg #TeamNRW

[@MGriffithsNRW](#) - 2 (ddim yn weithredol ar hyn o bryd)

[@JohnHoggNRW](#) - 106 o ddilynwyr

[@LajlaCashNRW](#) - 80 o ddilynwyr

[@BenWilsNRW](#) - 326 o ddilynwyr

[@SteveMorganNRW](#) - 236 o ddilynwyr

[@MTBRangersouth](#) - 560 o ddilynwyr

[@NadiaDL_NRW](#) - 391 o ddilynwyr

Lefel Cyfarwyddwr / Cadeirydd / Prif Swyddog Gweithredol

[@DianeMcCreaNRW](#) ** - Cadeirydd - 97 o ddilynwyr

[@GarethOSheaNRW](#) ** - 107 o ddilynwyr

*Roedd y ffigurau'n gywir ar 16 Chwefror 2018.

Mae gennym fwy o staff yn trydaru yn Saesneg nag yn Gymraeg ar hyn o bryd, ond rydym yn awyddus i ddatblygu ein rhwydwaith o staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol. I ddatblygu ein defnydd o'r Gymraeg ar-lein, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Annog mwy o staff Cymraeg i drydaru fel rhan o'u busnes swyddogol
- Annog pob aelod o'n staff i ddefnyddio hashnodau #TîmCyfoeth ac #yagym er mwyn helpu i annog y defnydd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd fel #ShwmaSutMae
- Rhannu mwy o gynnwys Cymraeg ar draws ein rhwydwaith o gyfrifon
- Sicrhau bod pob cyfrif ar lefel Cyfarwyddwr / Cadeirydd / Prif Swyddog Gweithredol yn ymdrechu i gynnwys Cymraeg yn ei gyfrif lle bynnag y bo'n bosibl

Gall staff gael canllawiau gan ein Tîm Cyfathrebu Digidol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Peiriannau hunanwasanaeth (Safon 56)

Mae ein peiriannau parcio hunanwasanaeth yn ein canolfannau ymwelwyr yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pan na fydd y peiriannau'n gweithio'n iawn, mae cwsmeriaid yn talu yn siop y ganolfan ymwelwyr.

Arwyddion parhaol a dros dro (Safonau 57 – 59) a hysbysiadau (Safonau 65 – 66)

Er mwyn sicrhau bod ein holl arwyddion a hysbysiadau'n cadw at ein safonau corfforaethol, mae gennym bolisi arwyddion ar waith sy'n nodi y bydd pob arwydd a hysbysiad, boed hwnnw'n barhaol neu dros dro, yn ddwyieithog ar bob adeg ac yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Desgiau derbynfa (Safonau 60 – 64)

Mae arwyddion Cymraeg Gwaith wedi'u gosod ym mhob un o'n desgiau derbynfa swyddogol yn ein prif swyddfeydd. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i roi sylw i aelod o'r cyhoedd ar unwaith, bydd cydweithiwr sy'n siarad Cymraeg yn cael ei alw i ymdrin â'r ymholiad ar unwaith. Bydd pob un o'n siaradwyr Cymraeg wrth ddesgiau derbynfa naill ai'n gwisgo laniard neu fathodyn "Siaradwr Cymraeg" i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Dyfarnu grantiau / Polisi ar ddyfarnu grantiau (Safonau 67 – 71 a 90)

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau, mae ein polisiau a gweithdrefnau ar ddyfarnu grantiau wedi'u diwygio er mwyn cydymffurfio â gofynion y safonau hyn, gan

gynnwys ffurflenni cais. Mae'r holl wybodaeth ar gael i ymgeiswyr yn ddwyieithog, ac mae gennym siaradwyr Cymraeg rhugl yn ein Tîm Grantiau, sy'n gallu asesu'r ceisiadau Cymraeg a ddaw i law a chyfweld ymgeiswyr yn eu hiaith ddewisol.

Contractau a ddyfernir i drydydd partion (Safonau 72 – 76)

Cafodd polisiau a gweithdrefnau caffael eu diweddarau i gydymffurfio â'r Safonau. Caiff hysbysiadau contract sy'n syrthio y tu allan i reoliadau caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Caiff manylebau tendro sy'n cynnwys gwybodaeth dechnegol neu wyddonol eu hasesu gan ddefnyddio'r rhestr wirio gyfieithu sydd gennym ar waith.

Ymatebir i dendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn Gymraeg, a chânt sylw gan y siaradwyr Cymraeg rhugl yn ein Tîm Caffael.

Hysbysebu a hyrwyddo (Safonau 77 – 78)

Mae'r holl hysbysebu rydym yn ei wneud i hyrwyddo ein gwasanaethau i'r cyhoedd yn cael ei wneud yn ddwyieithog. Mae ein Tîm Cyfathrebu'n darparu cyngor ac arweiniad i staff wrth hyrwyddo ein gwasanaethau.

Hunaniaeth gorfforaethol (Safon 79)

Rydym wedi mabwysiadu hunaniaeth ddwyieithog fel Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales o'r cychwyn cyntaf. Defnyddir hyn ar yr holl bapur â phennawd a chyhoeddiadau ac ati ac mae wedi'i gynnwys ar ein harwyddion ac ar ein cerbydau â bathodyn.

Cyrsiau hyfforddi ar gyfer y cyhoedd (Safon 80)

Mae ein staff addysg a sgiliau dysgu yn yr adran Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'n darparu cyrsiau hyfforddi sydd wedi'u hanelu at y sector addysg. Eleni, mae un cwrs wedi'i gynnal drwy'r Gymraeg a deg arall wedi'u cynnig yn ddwyieithog. Mae'r holl ddogfennau ar gyfer pob cwrs yn ddwyieithog.

Mae gwaith hefyd wedi'i gyflawni mewn partneriaeth â "Gwaith Maes" ar ddatblygu ap, a fydd yn dod yn fyw yn ystod y misoedd nesaf. Bydd yr ap yn darparu enwau adar, anifeiliaid a phlanhigion yn ddwyieithog. Hefyd, cyhoeddwyd erthyglau yn y cyhoeddiad Cymraeg *Llên Natur* mewn partneriaeth â Chymdeithas Edward Llwyd.

Rydym hefyd wedi cael erthyglau wedi'u cyhoeddi mewn cylchgrawn Cymraeg newydd, *Cliciadur*, sydd wedi'i anelu at ysgolion cynradd.

Cyhoeddiadau cyhoeddus (Safon 83)

Nid ydym yn gwneud cyhoeddiadau cyhoeddus dros system cyfarch cyhoeddus yn ein swyddfeydd. Rydym yn denantiaid yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth, lle caiff yr holl gyhoeddiadau eu gwneud yn ddwyieithog dros y system gyhoeddi.

Safonau polisi

Cydymffurfio wrth lunio polisiau (Safonau 84 – 86)

Rhaid i staff gwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi newydd neu bolisi a ddiwygir, sy'n cynnwys ystyriaethau o'r Gymraeg. Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u hysgrifennu mewn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac maen nhw'n cofnodi pa

effaith, os o gwbl, y bydd y polisi'n ei chael ar y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Rhwyng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, cynhaliwyd saith asesiad effaith.

Cyhoeddi ymgynghoriadau a gwneud gwaith ymchwil (Safonau 87 – 89 a 91 – 93)

Mae rheolwyr wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o'r angen i gynnwys ystyriaethau o'r Gymraeg ar ffurflenni ymateb wrth ofyn am adborth ar benderfyniadau polisi neu wrth wneud gwaith ymchwil er mwyn cynorthwyo penderfyniadau polisi. Gofynnwyd i'r staff gynnwys y cwestiynau isod ar ffurflenni ymateb: -

Sut mae'r penderfyniad polisi wedi'i lunio neu ei ddiwygio mewn modd sy'n sicrhau y canlynol: -

- (a) nid oes effeithiau niweidiol neu lai o effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- (b) effeithiau cadarnhaol neu fwy o effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- (c) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

Bydd ymwybyddiaeth o'r gofynion hyn yn cael ei chodi eto er mwyn sicrhau bod ein staff sy'n cynnal ymgynghoriadau'n ymwybodol o'r gofynion hyn.

Safonau gweithredol

Cydymffurfio â safonau gweithredol (Safonau 94 – 136)

Polisi iaith mewnol (Safon 94)

Mae ein polisi iaith mewnol yn ffurfio rhan o'n polisi Safonau'r Gymraeg. Anogir ein holl staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, waeth beth y bo'r sgiliau hynny. Mae ein polisi mewnol ar waith i annog y defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu o fewn y sefydliad. Mae ein polisi mewnol yn cynnwys y canlynol: -

- Yr angen i'r holl staff asesu eu sgiliau Cymraeg
- I staff nodi eu dewis o iaith wrth dderbyn gohebiaeth sydd wedi'u cyfeirio atyn nhw'n bersonol
- Bod cynlluniau rheoli perfformiad a hyfforddiant ar gael yn ddwyieithog fel y gall staff eu cwblhau yn eu hiaith ddewisol
- Dylai eitemau a anfonir i'r holl staff neu i grŵp mawr o staff fod yn ddwyieithog
- Anogir y staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg ysgrifenedig wrth anfon gohebiaeth yn fewnol
- Dylid annog staff i ddefnyddio Cymraeg mewn cyfarfodydd mewnol
- Pa gyrsiau gall staff ofyn amdanynt yn Gymraeg
- Mae croeso i'r staff leisio cwyn yn Gymraeg, ac ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn yn Gymraeg yn ystod y broses ddisgyblu fewnol

Recrwtio (Safon 95)

Rhaid i staff lenwi ffurflen manylion personol a chyflog ar gyfer pob rôl newydd o fewn y sefydliad. Mae'r ffurflen yn gofyn i'r unigolyn roi gwybod i ni a hoffai dderbyn ei gontract cyflogaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Gohebiaeth bapur i gyflogeion (Safon 96)

Cyn y daeth Safonau'r Gymraeg i rym, gofynnwyd i'r holl staff a hoffent dderbyn gohebiaeth bapur ynghylch cyflogaeth sydd wedi'i chyfeirio atyn nhw'n bersonol yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Gofynnir yr un cwestiwn hefyd i'r holl staff

newydd ar ein ffurflen cyflog a gwybodaeth bersonol, sy'n rhaid i bob aelod newydd o'r staff ei llenwi.

Un enghraifft o ohebiaeth a anfonwyd at bob aelod o staff yn unigol yn ei hiaith ddewisol yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd llythyrau ynghylch gwerthuso swyddi.

Anghenion hyfforddi a rheoli perfformiad (Safonau 97 – 99)

Mae ein polisi, canllawiau a gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg a Saesneg er mwyn i staff eu cwblhau yn eu hiaith ddewisol ar y fewnwyd. Mae anghenion hyfforddi a rheoli perfformiad gyda'i gilydd mewn un ddogfen ar gyfer pob blwyddyn adrodd.

Ffurflenni absenoldeb, oriau gweithio hyblyg (Safon 100)

Mae ein system MyNRW ganolog yn cofnodi'r wybodaeth hon i'n staff ac mae rhyngwyneb y system ar gael i'r staff yn Gymraeg a Saesneg trwy ofyn i'r adran TGCh. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfyngiadau o fewn y system yn caniatáu i'r staff gofnodi gwybodaeth yn Gymraeg, a bydd gallu dwyieithog y system yn cael sylw mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Polisiâu pobl (Safonau 101 – 107)

Mae ein holl bolisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau pobl ar gael i'r staff ar y fewnwyd yn Gymraeg a Saesneg.

Cwynion gan staff (Safonau 108 – 115)

Mae pob un o'n bolisiâu sy'n caniatáu i staff gwyno (polisiâu bwlio ac aflonyddu, anghydfod, a rheoli camymddygiad) ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys y gweithdrefnau a'r canllawiau. Mae'r rhain ar gael ar y fewnwyd. Mae croeso i bobl leisio pryderon yn Gymraeg neu Saesneg, a bydd y mater hwnnw'n cael sylw yn eu hiaith ddewisol, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Meddalwedd cyfrifiaduron (Safon 116)

Mae gan staff ddewis o ryngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron. Mae'r feddalwedd Cysgliad, sef y feddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg a geiriadur, ar gael i'r holl staff drwy ofyn i'n hadran TGCh. Mae'r feddalwedd hon yn helpu ein staff i fagu hyder wrth ddefnyddio'u sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg. Mae staff sy'n datblygu eu sgiliau ieithyddol yn cael budd o'r feddalwedd hon hefyd, trwy gael dealltwriaeth o'r hyn a ysgrifennir a'r rheolau ar gyfer ysgrifennu yn Gymraeg.

Rydym hefyd yn annog ein staff i ddefnyddio Bing Translate yn fewnol pan fyddant yn derbyn tesun Cymraeg. Mae hyn yn helpu'r staff i gael dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu, ac yn caniatáu iddynt allu llunio ymateb i'w anfon at y Tîm Cyfieithu.

Mewnwyd (Safonau 117, 120 a 122)

Mae ein mewnwyd yn ddwyieithog, a chaiff staff ddewis iaith uniongyrchol o naill ai Cymraeg neu Saesneg ar bob tudalen. Bydd adroddiadau a chanllawiau technegol a gwyddonol a gyhoeddir ar y fewnwyd yn cael eu hasesu fel yr amlinellwyd yn Safonau 36 a 43 gan ddefnyddio ein hasesiad rhestr wirio ar gyfer cyfieithu.

Tudalen/tudalennau Cymraeg penodedig ar y fewnwyd (Safon 121)

Mae gennym ddwy dudalen ar y fewnwyd sydd wedi'u neilltuo i'r Gymraeg fel a ganlyn: -

Mae tudalen mewnwyd Polisi Safonau'r Gymraeg yn cynnwys: -

- Ein Polisi Safonau
- Canllawiau ar waith i helpu ein holl staff i weithio'n ddwyieithog
- Mae popeth y mae angen i'r staff ei wneud wedi'i gynnwys yn y Canllawiau Hanfodol
- Poster ffeithlun, sy'n egluro'n gryno beth sydd angen i'r holl staff ei wneud i gydymffurfio â'r Safonau (mae'r poster hwn wedi'i argraffu a'i osod ar yr hysbysfyrddau yn ein swyddfeydd)
- Fideo pum munud o hyd sy'n egluro egwyddor ein Safonau a lle gellir dod o hyd i gymorth i weithio'n ddwyieithog
- Sut i asesu a chofnodi sgiliau Cymraeg
- Dolen i dudalen hyfforddiant iaith Gymraeg

Tudalen hyfforddiant yr iaith Gymraeg: -

- Rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg
- Sut i archebu hyfforddiant iaith Gymraeg
- Adnoddau dysgu sydd ar gael i helpu ein dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol
- Canllawiau ar y cynllun mentora
- Hanes yr iaith Gymraeg
- Apiau am ddim y gall staff eu lawrlwytho ar eu dyfeisiau symudol
- Geiriau Cymraeg defnyddiol
- Dolen i dudalen polisi Safonau'r Gymraeg

Anfonir dolenni i'r ddwy dudalen hyn at bob aelod newydd o staff mewn e-bost croeso gan y Tîm Iaith Gymraeg.

Asesu sgiliau Cymraeg cyflogeion (Safon 123)

Gofynnwyd i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a chofnodi'r wybodaeth ar ein system adnoddau dynol a chyllid canolog, MyNRW. Hyd yma, mae 91.4% (1,738) o'n staff wedi cwblhau'r weithred hon. Byddwn yn parhau i ofyn i'r 8.6% (164) aelod arall o'r staff gwblhau'r weithred hon yn y misoedd i ddod trwy eu rheolwyr llinell. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sgiliau Cymraeg ein sefydliad yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

Cyrsiau hyfforddi a ddarperir yn Gymraeg (Safonau 124 – 125)

Yn ystod 2016–17, mae sylw wedi'i roi i ddatblygu rheolaeth, ac ni wnaethom gynnal cyrsiau hyfforddi ar y canlynol: -

Recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, ymsefydlu ac ymdrin â'r cyhoedd, a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd.

Mae ystod o gyrsiau iechyd a diogelwch wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, ac ni chafwyd unrhyw geisiadau gan staff yn gofyn i'r hyfforddiant hwn gael ei gyflawni yn Gymraeg. Mae rhestr o gyrsiau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i rhestru ar ein polisi iaith fewnol, sy'n rhan o'n polisi ar gyfer y Safonau.

Mae ein tîm dysgu a datblygu'n bwriadu codi ymwybyddiaeth staff fod y cyrsiau hyn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn nesaf.

Hyfforddiant iaith Gymraeg (Safonau 126 – 128)

Mae ein rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg wedi bod ar waith ers 2014, ac mae'n caniatáu i'r holl staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith, gyda chytundeb y rheolwr llinell, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth i'r staff hynny y mae

dysgu Cymraeg yn rhan o'u hamodau penodi. Mae'r staff yn mynychu'r hyfforddiant yn ystod diwrnod gwaith, yn yr un modd â phob cwrs hyfforddi arall sy'n ymwneud â'r gwaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi trefnu cyrsiau ychwanegol i gefnogi ein staff sy'n dysgu ar lefelau amrywiol ymhellach. Gellir dod o hyd i fanylion nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau'n rheolaidd a gwybodaeth am gymorth a chyrsiau pellach yr ydym wedi'u trefnu yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y staff sy'n dysgu'n wythnosol yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ac mae rhai o'r dosbarthiadau a redir gennym yn fewnol wedi cael eu canslo o ganlyniad i'r niferoedd bychan. Mae'r staff hynny a gafodd eu cwrs mewnol wedi'i ganslo, ac a oedd yn dymuno parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, wedi cael cymorth i wneud hynny ac wedi cofrestru ar gwrs a gynhelir yn allanol.

Er bod dirywiad yn nifer y staff sy'n dysgu bob wythnos, gwnaeth 55 o aelodau o'r staff gofrestru i gwblhau cwrs croeso Cymraeg Gwaith deg awr ar-lein, a chafwyd adborth cadarnhaol wedi iddynt ei gwblhau.

Ers i ni ofyn i staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg am y tro cyntaf yn 2014, a lansio ein rhaglen hyfforddiant Cymraeg yn yr un flwyddyn, dengys ein hystadegau fod y staff sydd wedi bod yn dilyn ein rhaglen hyfforddi ers 2014 yn dangos cynnydd o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg. Yn 2014, gallai 10.5% o'n staff siarad Cymraeg ar Lefel 2; dengys ein hystadegau presennol fod 22.7% o'n staff yn gallu siarad Cymraeg ar yr un lefel yn 2018. Bydd nifer o'n staff sy'n dysgu ar y lefel hon yn sefyll eu harholiadau ym mis Mehefin 2018. Byddwn yn darparu cymorth ychwanegol yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth iddynt wneud cynnydd o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn y dyfodol.

Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg (Safon 129)

Mae'r holl staff newydd yn derbyn e-bost croeso gan Dîm y Gymraeg, sy'n cynnwys gwybodaeth am y Safonau a'r hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael. Mae'r e-bost yn cynnwys dolen i'r tudalennau Cymraeg sydd ar y fewnwyd. Gwahoddir yr holl aelodau staff newydd i fynychu cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, sy'n cynnwys fel rhan o'r cwrs hanes yr iaith Gymraeg, cefndir i'r ddeddfwriaeth sydd ar waith, a diben a gofynion y Safonau. Gellir dod o hyd i wybodaeth am nifer y cyrsiau a'r staff sydd wedi mynychu'r cwrs yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn.

Logo a llofnodion staff (Safon 130)

Mae'r Tîm Cyfathrebu wedi dylunio llofnod safonol i bob un o'n staff ei ddefnyddio wrth ohebu ag eraill, fel y disgrifiwyd uchod yn Safonau 1 – 7.

Recriwtio (Safonau 132, 132A, 133, 133A a 133B)

Caiff sgiliau iaith Gymraeg eu hasesu ar gyfer pob swydd wag neu swydd newydd, yn gyntaf gan y rheolwr llinell, ac wedyn eu cadarnhau mewn trafodaeth â'r Cynghorydd Polisi Iaith Gymraeg. Mae hyn yn dilyn ein canllawiau ar staffio a recriwtio, gan gydnabod gofynion y rôl, y lleoliad, a gallu siaradwyr Cymraeg y tîm. Mae pob rôl a hysbysebwr yn nodi a yw'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn hanfodol, angen eu dysgu neu'n ddymunol ar gyfer pob swydd. Mae'r gallu i ynganu enwau lleoedd ac enwau personol, a'r gallu i ddeall a defnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y sefydliad, er mwyn sicrhau y gall staff ddefnyddio cwrteisi ieithyddol sylfaenol.

Mae canllawiau a ffurflenni cais yn cynnwys y geiriad canlynol: -
"Rydym yn croesawu ceisiadau am swyddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau Saesneg."

Mae'r holl bolisiau, gweithdrefnau, hysbysebion a ffurflenni cais sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae lle ar ffurflenni cais i nodi a yw ymgeisydd yn dymuno i'w gyfweliad gael ei gynnal trwy'r Gymraeg. Bydd ceisiadau a ddaw i law yn Gymraeg a Saesneg yn cael sylw o fewn yr un amserlen.

Mae canllawiau ar waith i reolwyr ar recriwtio ac ystyriaethau'r iaith Gymraeg.

Gwnaethom ymateb i ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch cymhwysiad llawn Safonau 133 ac 133A a oedd yn ymwneud â swydd a hysbysebwyd gan drydydd parti. Rydym yn aros am y penderfyniad terfynol, ond rydym wedi ymddiheuro na wnaethom egluro'n gwbl glir ein bod yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg ac nad oedd un (o dair) sianel ymgeisio'r trydydd parti ar gael yn Gymraeg.

Arwyddion (Safonau 137, 138 ac 139)

Mae ein holl arwyddion parhaol a dros dro sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd. Er mwyn sicrhau bod ein holl arwyddion a hysbysiadau'n cydymffurfio â'n safonau corfforaethol, mae gennym bolisi arwyddion ar waith, sy'n nodi y bydd ein holl arwyddion a hysbysiadau parhaol a dros dro yn ddwyieithog ar bob adeg ac yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Bydd y testun ar arwyddion yn cael ei wirio gan ein tîm cyfieithu mewnol neu gan siaradwr Cymraeg rhugl er mwyn sicrhau cywirdeb o ran ystyr a mynegiant.

Cyhoeddiadau sain (Safon 140)

Fel rheol, nid ydym yn gwneud cyhoeddiadau yn y gweithle gan ddefnyddio offer sain. Yr unig eithriad yw ein swyddfa yn Aberystwyth, lle rydym yn denantiaid yn swyddfa Llywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, mae pob cyhoeddiad sain yn ddwyieithog.

Safonau cadw cofnodion

Cwynion (Safonau 141 – 143)

Cawsom wyth cwyn ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r Safonau. Dilynwyd ein polisiau a'n gweithdrefnau cwyno wrth ymdrin â phob cwyn.

Dyma oedd y cwynion a dderbyniwyd: -

Dyddiad	Natur y gŵyn	Canlyniad	Unrhyw gamau gweithredu pellach
13.4.17	Neges ar Twitter yn tynnu ein sylw at y ffaith fod y Gymraeg yn anghywir ar arwydd ar lwybr pren ar Ynys Llanddwyn (rhan o Warchodfa	Gwnaethom ddiolch i'r sawl a gwynodd am dynnu ein sylw at y mater, a chywirwyd y testun, gan roi'r Gymraeg o flaen y Saesneg.	Ni wnaeth unrhyw gamau pellach gael eu cymryd na'u derbyn.

	Natur Genedlaethol Cwningar Niwbwrch), a bod y testun Saesneg o flaen y Gymraeg.		
30.4.17	Gwnaethom dderbyn e-bost yn gofyn pam oedd cais am drwydded wedi'i hysbysebu yn Saesneg yn unig yn Llyfrgell y Barri.	Gwnaethom ddiolch i'r sawl a gwynodd am yr e-bost, gan egluro mae cais a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd oedd hwn. Mae ein polisiau yn gofyn i'n sefydliad gyhoeddi'r cais, ond gwnaethom egluro nad oedd gofyniad arnom i gyfieithu testun na chynhyrchwyd gennym. Roedd ein holl gyhoeddiadau a oedd yn ymwneud â'r cais ar gael yn ddwyieithog yn y llyfrgell.	Ni wnaeth unrhyw gamau pellach gael eu cymryd na'u derbyn.
22.5.17	Gwnaethom dderbyn galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd yn ein hysbysu nad oedd wedi gallu siarad â rhywun yn Gymraeg yn Asiantaeth yr Amgylchedd wrth wneud ymholiad ynghylch trwydded bysgota.	Gwnaethom ddiolch i'r aelod o'r cyhoedd am ei alwad, gan egluro y byddem yn ymchwilio i'r mater. Trafodwyd y mater gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n cyflwyno'r gwasanaeth hwn ar ein rhan, a gwnaethant egluro nad oeddent yn gallu ymdrin â galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Trosglwyddwyd y neges hon i'r unigolyn, a rhoddwyd neges ar y wefan yn nodi nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael dros y ffôn ar hyn o bryd ar gyfer y gwasanaeth hwn.	Mae trafodaethau ar droed gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i ddod o hyd i ddatrysiad ymarferol sy'n cydymffurfio â'r cyfreithiau diogelu data er mwyn sicrhau gwasanaeth iaith Gymraeg ar bob adeg. Mae cwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru yn derbyn trwydded bysgota ddwyieithog.
14.8.17	Gwnaethom dderbyn llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch cwyn a oedd wedi dod i law am y broses ymgeisio ar gyfer swydd wag y Prif Weithredwr. Roedd y sawl a gwynodd yn anhapus â'r ffaith nad oedd y broses o ymgeisio yn Gymraeg yn unol â	Roeddem yn defnyddio trydydd parti at ddibenion recriwtio, a gwnaethom ymestyn y broses ymgeisio ar unwaith er mwyn annog rhagor o geisiadau yn Gymraeg. Er bod yr holl wybodaeth am y swydd wag ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a manylion wedi'u rhoi ar sut i gyflwyno cais yn Gymraeg, gwnaethom ymddiheuro nad oeddem wedi nodi'n glir ein bod yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg. Gellid cyflwyno ceisiadau mewn ffyrdd amrywiol i'r	Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, er mwyn pennu a oeddem wedi methu â chydymffurfio â rhai o Safonau'r Gymraeg y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. Derbyniwyd Hysbysiad o

	gofynion ein Safonau.	trydydd parti, ac roedd un o'r ffyrdd hyn yn cynnwys defnyddio ei offeryn ar-lein ledled y DU, a oedd yn Saesneg yn unig. Er ein bod wedi sicrhau y gallai ymgeiswyr ymgeisio yn Gymraeg, mae'r Comisiynydd wedi nodi na wnaethom ddarparu'r un opsiynau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg. Rydym wedi hysbysu Swyddfa'r Cabinet (a oedd yn rheoli'r cyflenwr trydydd parti) a'r cyflenwr fod angen sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hosgoi mewn contractau eraill ac mewn cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru y mae'r Safonau hyn yn berthnasol iddynt.	Benderfyniad gan y Comisiynydd ar 1.2.18, a oedd yn cynnig penderfyniad ein bod wedi methu â chydymffurfio â rhai o'r Safonau y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. Gwnaethom dderbyn y penderfyniad a'r camau gweithredu pellach a gynigiwyd gan y Comisiynydd.
10.11.17	Derbyniwyd llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn cwyn a dderbyniwyd ein bod wedi ymateb i ymholiad Cymraeg yn Saesneg.	Gwnaethom ymateb trwy ddweud bod ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid wedi ymateb i'r sawl a gwynodd yn Gymraeg i ddechrau, a bod yr ymateb ar ôl ymchwilio i'r ymholiad wedi'i gyflwyno yn Saesneg i ddechrau. Unwaith y tynnwyd ein sylw at hyn, anfonwyd ymddiheuriad i'r sawl a gwynodd, gyda'r ymateb wedi'i gyfieithu a'i anfon yn Gymraeg.	Yn dilyn y gŵyn hon, rydym wedi diwygio ein gweithdrefnau mewnol i geisio sicrhau na fydd digwyddiad o'r fath yn digwydd eto. Bydd ein system gofnodi, sef System Cofnodi Digwyddiadau Cymru, yn nodi'r dewis iaith ddwywaith er mwyn helpu i amlygu'r gofyniad hwn. Ar 1.12.17, gwnaethom dderbyn hysbysiad gan y Comisiynydd o'i bwriad i gynnal ymchwiliad o dan adran 71 o Fesur y Gymraeg (Cymru), er mwyn pennu a oeddem wedi methu â chydymffurfio â rhai o Safonau'r Gymraeg o ran gohebiaeth. Gwnaethom ymateb i'r ymchwiliad hwn ar

			12.12.18. Nid oes unrhyw ohebiaeth bellach wedi dod i law hyd yn hyn.
23.11.17	Derbyniwyd cwyn ar Twitter yn tynnu ein sylw at y prinder Cymraeg mewn cynhadledd a drefnwyd gennym ni ein hunain.	Gwnaethom ddiolch i'r sawl a gwynodd trwy Twitter am dynnu ein sylw at y mater hwn, gan nodi y byddem yn trafod gofynion Safonau'r Gymraeg gyda'r staff a oedd yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad a chan ymddiheuro am hyn. Ers hyn, rydym wedi gohebu â'r sawl a gwynodd drwy e-bost, gan egluro'r camau rydym wedi'u cymryd yn fewnol yn ein trafodaethau â'r tîm dan sylw, gan gynnwys y canllawiau sydd gennym ar waith i helpu i drefnu digwyddiadau o'r fath, sy'n cynnwys ystyriaethau o'r iaith Gymraeg. Anfonwyd y gŵyn hon at gyfrif Twitter Comisiynydd y Gymraeg hefyd.	Nid oes camau gweithredu pellach wedi'u derbyn na'u cymryd hyd yn hyn.
7.2.18	Anfonwyd e-bost at ein cyfrif ymholiadau cyffredinol yn tynnu ein sylw at y ffaith fod llythyr a oedd yn gofyn am wybodaeth ynghylch digwyddiad llygredd gan gymuned wedi'i anfon i gartref yn Saesneg yn unig.	Gwnaethom ymateb trwy ddiolch i'r sawl a gwynodd am dynnu ein sylw at y mater hwn, ac anfonwyd cyfieithiad. Trafodwyd gofynion y Safonau gyda'r tîm dan sylw, ac anfonwyd copi o'n polisi a'n canllawiau ar gyfer gohebu ag eraill at arweinydd y tîm i'w trafod gyda'r staff. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg mewn perthynas â'r un digwyddiad yn ddwyieithog mewn papur newydd lleol.	Nid oes camau gweithredu pellach wedi'u derbyn na'u cymryd.
23.1.18	Derbyniodd ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid alwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd yn tynnu ein sylw at y ffaith nad oedd yr holl arwyddion yn ddwyieithog ar un o'n safleoedd gwaith, ac anfonwyd lluniau o'r	Gwnaeth ein Cyngorydd Polisi Iaith Gymraeg gysylltu â'r unigolyn a diolch iddo am dynnu ein sylw at y mater hwn. Trafodwyd y mater gyda'r tîm prosiect cysylltiedig, a chanfuom nad ein harwyddion ni oedd pob arwydd. Roedd y gwaith ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei wneud ar ein rhan gan drydydd parti. Cafodd tîm y prosiect eu	Nid oes camau gweithredu pellach wedi'u derbyn na'u cymryd.

	arwyddion dan sylw atom.	hatgoffa o'r Safonau a'r canllawiau ar waith, a gofynnwyd iddynt drafod gofynion y contract o ran yr iaith gyda'r contractwyr cysylltiedig. Mae'r arwyddion dan sylw wedi'u newid am rai dwyieithog.	
	Cwynion a dderbyniwyd gan ein staff ein hunain ar ddiffyg ystyriaethau o'r iaith Gymraeg.	Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi derbyn nifer o gwynion gan ein staff ein hunain o ran yr iaith Gymraeg, fel a ganlyn: Dim ystyriaeth wedi'i rhoi i'r iaith mewn cyfarfodydd tîm mawr. Cyflwyniad PowerPoint a anelwyd at y staff i gyd yn Saesneg yn unig. Galwadau Skype holl staff, dim darpariaeth ar gyfer sesiynau yn Gymraeg. Negeseuon e-bost holl staff wedi'u hanfon yn Saesneg yn unig. Negeseuon e-bost holl staff yn cael eu hanfon yn rheolaidd gydag ymddiheuriad eu bod mewn Saesneg yn unig.	Mae'r holl bwyntiau hyn wedi'u codi gyda'r timau dan sylw, sydd naill ai wedi anfon e-bost neu drefnu digwyddiad / cyfarfod / sesiwn Skype, gan dynnu eu sylw at ein polisi iaith mewnol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Safonau 144 ac 157)

Defnyddir offeryn Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi newydd sydd ar waith, er mwyn asesu'r effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y byddai'n eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd saith asesiad o'r fath.

Caiff pob asesiad ei awdurdodi gan y prosiect, arweinydd y cynllun neu brosiect, y rheolwr llinell, y Cynghorydd Polisi Iaith Gymraeg a'r Uwch-gynghorydd Cydraddoldeb.

Cyhoeddir copi o'n polisi a gweithdrefnau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan, a gellir cael copi yn ôl y gofyn gan unrhyw un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

Sgiliau Cymraeg ein cyflogaion (Safon 145)

Gofynnwyd i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a chofnodi eu canfyddiadau ar ein system adnoddau dynol a chyllid canolog, MyNRW. Hyd yma, mae 91.3% (1,737) o'n staff wedi cwblhau'r weithred hon. Byddwn yn parhau i ofyn i'r 8.7% (165) aelod arall o'r staff gwblhau'r weithred hon trwy eu rheolwyr llinell. Gellir gweld cofnod o sgiliau Cymraeg ein staff yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.

Hyfforddiant iaith Gymraeg (Safon 146)

Gellir gweld crynodeb o nifer y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg a nifer y cyrsiau a gynhaliwyd yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn.

Asesiadau iaith Gymraeg o swyddi newydd neu swyddi gwag (Safonau 147 ac 148)

Mae asesiad iaith Gymraeg ar y lefel iaith sydd ei hangen ar gyfer pob swydd newydd neu wag o ran Safon 132 wedi'i nodi ar daenlen gan y Cynghorydd Polisi Iaith Gymraeg. Mae'r

daenlen hon hefyd yn nodi gallu'r siaradwyr Cymraeg o fewn pob tîm y bydd y swydd wag neu swydd newydd wedi'i lleoli. Mae'r daenlen yn nodi a yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu angen eu dysgu. Caiff pob swydd ei hysbysebu, gan gynnwys lefel iaith Gymraeg o Lefel 1 i Lefel 5, fel y bo'n briodol i'r rôl, gan ystyried gofynion/natur y rôl, lle mae'r swydd a gallu Cymraeg y tîm.

Roedd nifer y swyddi a hysbysebwyd fel hanfodol yn ystod y cyfnod adrodd hwn fel a ganlyn: -

Hanfodol	Disgrifiad o'r lefel iaith sydd ei hangen	Nifer a hysbysebwyd
Lefel 5	Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig	1
Lefel 4	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg	28
Lefel 3	Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg yn ystod rhai sefyllfaoedd gwaith	12
Lefel 1	Y gallu i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol (e.e. "bore da") a'r gallu i ynganu enwau lleoedd Cymru yn gywir	230
Dymunol		
Lefel 4	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg	2
Lefel 3	Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg yn ystod rhai sefyllfaoedd gwaith	33
Angen dysgu Cymraeg		
Lefel 4	Siaradwr Cymraeg rhugl	5
Lefel 3	Y gallu i gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg yn ystod rhai sefyllfaoedd gwaith	17

O'r swyddi uchod a hysbysebwyd, roedd 122 ohonynt yn rolau dros dro am 12 mis neu lai.

Mae'r Gymraeg yn cael ei hysbysebu'n hanfodol ar gyfer yr holl swyddi a hysbysebir ar Lefel 1, oherwydd dyma'r lefel iaith isaf sydd ei hangen ar holl staff ein sefydliad i ddangos cwrteisi ieithyddol.

Polisi Safonau'r Gymraeg (Safonau 149, 153, 155, 159, 161, 165 ac 167)

Mae gennym bolisi Safonau'r Gymraeg ar waith sy'n egluro sut byddwn yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, y Safonau Llundain Polisiâu, y Safonau Gweithredol a'r Safonau Cadw Cofnodion y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. Mae'r polisi'n cael ei gyhoeddi ar fewnrwyd ein staff ac ar y wefan, a gellir ei gael yn ôl y gofyn yn ein swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

Polisi cwynion (Safonau 150, 156 ac 162)

Mae gennym bolisi a gweithdrefnau cwyno ar waith, sy'n egluro sut yr ymdrinnir â phob cwyn a dderbynnir gan y sefydliad. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar ein gwefan ac maent ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd yn ôl y gofyn.

Mae gennym dîm profiadol o swyddogion yn y sefydliad sy'n ymdrin â chwynion, gan gynnwys cyfreithwyr pan fo angen. Gall staff gwblhau modiwl hyfforddi ar-lein gan y Gwasanaeth Sifil ar sut i ymdrin â chwynion.

Goruchwyllo'r gydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth (Safonau 151, 152 ac 163)

Y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros bolisi Safonau'r Gymraeg.

Amlygir unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfio gyda'r Tîm Gweithredol i'w thrafod gyda'r Grŵp Arweinyddiaeth, sy'n gyfrifol am y gwaith o sicrhau bod eu holl reolwyr a staff yn cydymffurfio â gofynion y Safonau.

Cyhoeddir ymwybyddiaeth o'r Safonau yn rheolaidd ar y fewnwyd ac yn y cylchlythyr misol i reolwyr, lle gofynnir i reolwyr drafod eu gofynion gyda'u timau. Fel rhan o'r broses ymsefydlu gyda staff newydd, gofynnir i reolwyr drafod gofynion y Safonau, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol eraill. Caiff y rhestr wirio ymsefydlu ei llofnodi gan y cyflogai a'r rheolwr a'i chadw ar ffeil.

Mae gennym grŵp monitro'r iaith Gymraeg ar waith (Grŵp Pencampwyr), sy'n goruchwyllo ac yn monitro'r Safonau o fewn pob cyfarwyddiaeth.

Mae ein cynllun busnes ar gyfer 2017–18 yn nodi'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y flwyddyn i ddod, ac mae'n gysylltiedig â'n cynllun corfforaethol ar gyfer 2014–17. Mae targedau iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn ein cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn, sy'n egluro sut mae'r sefydliad yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

O'r cynllun busnes, mae gennym gyfres o fesurau perfformiad a ddefnyddir i fyfyrion ar ein perfformiad – faint rydym wedi'i wneud, pa mor dda rydym ni wedi'i wneud, a beth yw'r canlyniadau. Rydym yn cyhoeddi'r canlyniadau yn ein Hadroddiad Blynyddol, a bydd ein Pwyllgor Pobl a Chyflogau a'r Bwrdd yn craffu ar berfformiad o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r cynllun corfforaethol yn egluro sut mae'r cynllun busnes yn cysylltu â'n cynllun corfforaethol ar gyfer 2014 – 2017, ac mae'n nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni i helpu i gryfhau ein gallu dwyieithog, i wella ein gwasanaethau i gwsmeriaid, ac i gryfhau ein perthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid trwy ddarparu gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol.

Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg (Safonau 152, 158 ac 164)

Rydym yn cyhoeddi Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg bob blwyddyn yn Gymraeg a Saesneg, sy'n cynnwys sut mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â'r holl safonau y mae gennym ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. Cyflwynir yr adroddiad drafft gerbron y Pwyllgor Pobl a Chyflogau a'r Tîm Gweithredol cyn cael ei gymeradwyo'n derfynol gan ein Bwrdd Rheoli. Caiff ei gyhoeddi wedyn yn unol â gofynion y Safonau.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi bob mis Medi; cyhoeddir hyn ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac mae ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd yn ôl y gofyn.

Rhoi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg (Safonau 154, 160, 166 ac 168)

Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi cyflwyno gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn ac o fewn yr amserlen ofynnol sy'n ymwneud â'n Safonau Cyflenwi Gwasanaeth, ein Safonau Llundio Polisiâu a'n Safonau Gweithredol.

Rydym wedi darparu gwybodaeth yn ddiweddar fel rhan o waith y Comisiynydd ar gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarperir gan sefydliadau cyhoeddus. Bydd canfyddiadau'r wybodaeth hon yn cael eu cyhoeddi yn Adroddiad Sicrwydd y Comisiynydd.

Casgliad

Rydym yn parhau i wneud cynnydd da o ran rhoi'r Safonau ar waith fel sefydliad. Rydym yn croesawu adborth gan ein cwsmeriaid ar ein gwasanaethau iaith Gymraeg. Mae hyn yn ein helpu i wella ein gwasanaethau yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod risgiau, ac wedi rhoi mesurau ar waith i'w hadolygu a'u rheoli.

Bydd ein gwaith ar wella ein gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf, yn ogystal â'n gwaith ar gynyddu cyfleoedd i'n staff weithio'n ddwyieithog.

Yn gyffredinol, rydym yn cynyddu sgiliau dwyieithog ein staff yn raddol, gan eu cefnogi i ddilyn ein rhaglen hyfforddi i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn y dyfodol ac i wireddu'r weledigaeth yn ein Safonau o fod yn sefydliad naturiol ddwyieithog ar gyfer y dyfodol.

Sgiliau Cymraeg staff sydd wedi hunanasesu eu sgiliau

Heb lenwi Ffurflen	Dim Cymraeg Sgiliau iaith	Gallu ynganu ymadroddion ac enwau Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn gyfrinachol Lefel 3	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
165	71	738	394	112	193	229
8.7%	4.1%	42.5%	22.7%	6.4%	11.1%	13.2%

Sgiliau Cymraeg pob cyfarwyddiaeth

Gallu Cymraeg	Heb gwblhau furflen	Dim sgiliau Cymraeg	Gallu ynganu ymadroddion ac enwau Cymraeg sylfaenol Lefel 1	Gallu llunio brawddegau Cymraeg sylfaenol Lefel 2	Gallu trafod rhai materion gwaith yn gyfrinachol Lefel 3	Rhugl ar lafar yn y Gymraeg Lefel 4	Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig Lefel 5
	165	71	738	394	112	193	229
	8.7%	4.1%	42.5%	22.7%	6.4%	11.1%	13.2%
Prif Swyddog Gweithredol			1			1	
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	19	11	83	46	10	22	24
Llywodraethu	2	1	5	4	2	1	
Cyfathrebu	2	1	6	6	1	4	18
Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	33	11	192	106	35	29	38
Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl			14	3	1	3	4
Gweithrediadau 'r Gogledd	67	13	181	113	42	90	105
Gweithrediadau 'r De	42	33	253	113	21	41	39
Trawsnewid		1	3	3		2	1
	165	71	738	394	112	193	229

Hyfforddiant Cymraeg

Dyma'r bedwaredd flwyddyn i ni redeg ein Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg, sydd wedi bod yn llwyddiannus hyd yma, gyda 270 o aelodau o staff yn cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant Cymraeg ar lefelau amrywiol. Bu chwe aelod o staff yn sefyll arholiadau Cymraeg ym mis Mehefin 2017, a disgwylir y bydd mwy o staff yn sefyll arholiadau yn ystod haf 2018. Caniateir amser o'r gwaith i staff sefyll yr arholiad, ac ychydig o amser i ffwrdd i astudio, yn unol â chanllawiau ein Hyfforddiant Cymraeg.

Mae deg cwrs hyfforddiant Cymraeg wythnosol wedi'u cynnal, gyda thiwtor yn dod i mewn i'n swyddfeydd. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda chyfraddau isel iawn o bobl yn tynnu allan. Anfonwyd ffurflenni gwerthuso at ein holl ddysgwyr yn gofyn am adborth ar ansawdd y gwersi. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau negyddol yn ystod y flwyddyn, ac roedd canran uchel o'r staff yn gwerthfawrogi'r cyfle a'r cymorth a roddwyd gan y sefydliad i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn ystod oriau gwaith.

Hyfforddiant Cymraeg wythnosol

Ers mis Medi 2017 (dechrau'r flwyddyn academaidd), mae'r rhaglen wedi cefnogi'r staff i ddysgu bob wythnos fel a ganlyn: -

- Mae 13 o aelodau staff yn mynychu cwrs Mynediad 2
- Mae 50 o aelodau staff yn mynychu cwrs Sylfaen 2
- Mae wyth aelod o'r staff yn mynychu cwrs Canolradd 2
- Mae chwe aelod o'r staff yn mynychu cwrs Uwch 2

Mae gennym ddau aelod o staff sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg lefel Mynediad ar-lein; rydym yn monitro eu cynnydd bob chwarter ac yn cynnig cymorth ychwanegol pan fo angen. Mae un aelod o'r staff sy'n dilyn y cwrs ar-lein yn sefyll arholiad ym mis Mehefin 2018. Er mwyn sicrhau bod yr unigolyn hwn yn barod ar gyfer yr arholiad, rydym wedi darparu mwy o gymorth trwy drefnu i diwtor gynnal asesiad mewn paratoad ar gyfer yr arholiad i weld a ellir rhoi rhagor o gymorth neu a oes angen rhagor o gymorth.

Yn dilyn llwyddiant y rhai hynny sy'n dilyn y cwrs ar-lein ar y cam cyntaf hwn o ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, byddwn yn edrych ar fwy o ffyrdd y gallwn ddefnyddio hyfforddiant ar-lein yn y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi mwy o staff i ddatblygu eu sgiliau ar gyflymder y gallant ei reoli a chymryd rhan fel y mynnant o fewn yr wythnos, yn hytrach na mynychu'r dosbarth dwy awr o hyd mwy ffurfiol bob wythnos.

Mae un aelod o'r Tîm Gweithredol yn dysgu Cymraeg trwy'r cynllun ar-lein, Croeso Cymraeg Gwaith. Mae dau aelod o'n Bwrdd yn dysgu Cymraeg yn allanol ar lefel Uwch a Mynediad.

Mae aelod o'n Bwrdd wedi gofyn am hyfforddiant personol gyda thiwtor er mwyn cyd-fynd â'r ymrwymadau yn ei ddyddiadur. Ar ôl edrych ar yr opsiynau, rydym wedi dod o hyd i diwtor ar-lein sy'n gallu gwneud sesiynau awr unwaith yr wythnos ar adeg sy'n cyd-fynd â'r dyddiadur.

Cymorth pellach yn ychwanegol at y cyrsiau wythnosol

Ers mis Medi 2017, mae ein staff, trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi mynychu cyrsiau Cymraeg am ddim fel a ganlyn: -

- Mae naw aelod o staff wedi mynychu cwrs preswyl pum diwrnod o hyd ar lefel Ganolradd yng nghanolfan iaith Nant Gwrtheyrn. Mynychodd tri aelod o'r staff gwrs preswyl pum diwrnod o hyd ar lefel Uwch yng Ngwinllan Llannerch. Mae'r adborth gan staff a fynychodd y ddau gwrs hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn. Gwnaeth y rhai a fynychodd fwynhau'r cwrs a'r cyfle a roddodd iddynt ymgolli eu hunain yn llwyr yn y cwrs a'r iaith.
- Mae 55 o aelodau staff wedi cofrestru i gwblhau'r cwrs Croeso Cymraeg Gwaith a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae hwn yn gwrs ar-lein deg awr o hyd i ddatblygu sgiliau iaith staff, fel y gall staff gwrdd a chyfarch, ateb y ffôn yn ddwyieithog, a dangos cwртеisi ieithyddol.
- Mynychodd tri aelod o staff gwrs Cymraeg Gwaith Dwys ar lefel mynediad yn ardal Wrecsam.
- Cafodd pum aelod o staff gefnogaeth i fynychu'r Ysgol Basg, mynychodd un aelod o'r staff y cwrs Ysgol Galan, a mynychodd nifer o'n staff gyrsiau adolygu.
- Gwnaeth 14 o aelodau staff fynychu Ysgol Haf ar wahanol lefelau.
- Gwnaeth pum aelod o staff fynychu'r dosbarth Cymraeg Meistroli.
- Gwnaeth 69 o aelodau staff fynychu cyrsiau allanol amrywiol.

Cynllun mentora

Mae ymwybyddiaeth o'n cynllun mentora wedi'i hamlygu trwy ein sianelu cyfathrebu yn y cylchlythyr misol i reolwyr, ar Yammer, ac ar yr hysbysfyrdau iaith Gymraeg sydd ym mhob un o'n swyddfeydd. Rydym wedi canolbwyntio ar fuddion defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth a'i hymarfer, trwy gael sgysiau anffurfiol gyda siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae 24 o ddysgwyr wedi cofrestru ar ein cynllun mentora ar hyn o bryd, ac mae 28 o aelodau'r staff wedi cynnig bod yn fentoriaid.

Cyrsiau mewnol a ddatblygwyd yn benodol at ddibenion gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru gan ein Cyd-gysylltydd Hyfforddiant Cymraeg

- Cynhaliwyd tri chwrs Sylfaen yn ein swyddfeydd ym Mangor, Bwcle, Caerdydd a Threfynwy, lle mynychodd 29 o aelodau staff. Gwnaeth y Cyd-gysylltydd Hyfforddiant Cymraeg weithio gyda'r cynrychiolwyr a'r tiwtor i ddylanwadu ar gynnwys y cwrs a'i ddatblygu.
- Cynhaliwyd pedwar cwrs Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Bangor, lle mynychodd 47 o aelodau staff. Ar y cwrs, dysgodd y staff am fuddion gweithio'n ddwyieithog, cefndir y polisi a deddfwriaeth genedlaethol, a

gwnaethant ennyn dealltwriaeth o Safonau'r Gymraeg a'r hyn y maen nhw'n ei olygu i ni.

- Ym mis Mai, cyflwynwyd cwrs Polisi'r Gymraeg i naw aelod o'r staff. Diben cynnwys y cwrs oedd helpu staff i ddeall ein safonau, yr ystyriaethau y dylid eu rhoi i'r Gymraeg mewn penderfyniadau polisi, a dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn a olygir gan gydymffurfio a'r hyn sy'n digwydd os nad ydym yn cydymffurfio.
- Mae cwrs hyfforddiant Cymraeg wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer ein staff sy'n gweithio yn ein Canolfan Ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian. Bydd y cwrs yn eu helpu nhw gyda sgiliau Cymraeg, gan ganolbwyntio ar wasanaethau cwsmeriaid. Bydd y cwrs yn rhedeg am saith wythnos, gyda phob sesiwn yn awr a hanner o hyd ac wedi'i chynnal yn ystod oriau agor y ganolfan.

Adnoddau Cymraeg sydd ar gael

- Prynwyd llyfrau cwrs lefel Mynediad (fersiynau'r Gogledd a'r De), ynghyd â'r cryno ddisgiau, a chedwir y rhain yn ein llyfrgell ym Mangor i staff eu benthyg a'u defnyddio. Mae 15 o lyfrau cwrs Gloywi Iaith a oedd wedi'u prynu'n flaenorol hefyd ar gael yn y llyfrgell i staff eu defnyddio.
- Mae 250 o laniardiau a 250 o fathodynau 'Dwi'n Dysgu Cymraeg' wedi'u prynu ar gyfer ein dysgwyr, ac anogir nhw i'w gwisgo os ydynt yn dymuno. Gobeithir y bydd hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt ymarfer eu sgiliau Cymraeg gyda phobl eraill.
- Mae gennym drwydded sefydliadol i ddefnyddio'r feddalwedd Cymraeg Cysgliad (gramadeg, gwirio sillafu a geiriadur Cymraeg) ar liniaduron a byrddau gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r feddalwedd hon yn helpu ein siaradwyr Cymraeg a'n dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac mae'n un o'r gofynion yn Safon 116 ein polisi.
- Mae ein tudalen hyfforddiant Cymraeg wedi'i diweddarau gydag adnoddau ychwanegol. Rydym wedi cynnwys adran ar y dudalen hon ar hanes Cymru a'r iaith. Mae adran 'Beth sy'n newydd' hefyd, yr ydym yn bwriadu ei diweddarau'n rheolaidd.
- Ym mis Gorffennaf 2017, cafodd dau ap ffôn symudol, 'Duolingo' ac 'Ap Geiriadur', eu cynnig i'r staff ar eu ffonau symudol a llechi gwaith. Gall staff sy'n defnyddio'r apiau hyn ymarfer eu Cymraeg pan fyddant allan a phan fydd yn gyfleus iddyn nhw.
- Cynhelir sesiynau 'Siop Siarad' gennym yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Dolgellau, a gall ein dysgwyr fynd i'r rhain i gael sgwrs anffurfiol er mwyn ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Cynhelir sesiwn 'Coffi a Chlonc' yn ein swyddfa yn Aberystwyth hefyd, a redir gan Lywodraeth Cymru – gall ein staff fynychu nifer o sesiynau os ydynt yn dymuno.

Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Rydym yn gwneud ein gorau i amlygu diwrnodau a dathlu'r iaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r canlynol: -

- Caiff yr holl gyrsiau sydd ar gael, digwyddiadau lleol am ddim, gwefannau defnyddiol ac adnoddau eu hysbysebu ar Yammer.
- Hysbysebwyd 'Diwrnod Shwmae' ar Yammer, gan annog staff i gymryd rhan ar 15 Hydref 2017 i gyfarch pobl a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

- Hysbysebwyd Dydd Santes Dwynwen ar 25 Ionawr ar Yammer, Twitter, Facebook a'r fewnwyd. Gwnaethom gysylltu â gwybodaeth ar ein hadran Ar Grwydr ar ein gwefan i annog pobl i ymweld ag Ynys Llanddwyn, a gwranddo ar stori Santes Dwynwen ar yr ap chwedlau lleoedd.
- Amlygwyd diwrnod cerddoriaeth Gymraeg ar Yammer yn barod ar gyfer 9 Chwefror, a gwnaethom annog y staff i gymryd rhan.
- Ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth, cyhoeddwyd baner ar y fewnwyd, ac ar Twitter, Yammer a Facebook, yn dymuno Dydd Gŵyl Dewi hapus i'r holl staff.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gall y ddogfen hon gael ei hatgynhyrchu â chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru.